

Y CLYCHAU *gan Pegi Lloyd Williams*

Cloch yn nhŵr yr eglwys sydd yn dod i'r meddwl wrth sôn am y clochyddion. Byddai'n cael ei chanu cyn pob gwasanaeth, ac ar y diwedd. Fe'i clywid ar adeg o lawenydd - coroni'r brenin; y sgweiar yn cael aer, priodas un o'i blant; dro arall, fel rhybudd rhag distryw; croesawu'r fwyddyn newydd, cyhoeddi marwolaeth, atgoffa y trigolion i roi tân yr aelwyd allan cyn noswyllo, ac i rybuddio pawb i ddod yn ôl tu mewn i furiau'r dref cyn i'r dorau gael eu cau - sef yr hwyrgloch (*curfew*). Byddai ambell clochydd yn medru rhoi ar ddeall trwy batrwm y cnulio os mai gwryw neu fenyw oedd wedi marw. Roedd clochydd Llangollen yn rhoi deuddeg tonc i ŵr priod, un ar ddeg i wraig briod, deg i hen lanc, naw i hen ferch, chwech i fachgen a phump i hogan. Tipyn o gamp, yn wir, ond byddai clochydd Llanfairfechan yn medru nodi oed yr ymadawedig hefyd, a byddai gwneud hyn yn gyffredin yn Lloegr. Mae'n siwrnad oes dim mwy dwys na thrymaidd na chlywed cnul angladdol Cloch y Llan. Yn ôl y sôn, byddai tair cloch yn canu cnul pan fyddai angladd yn nesu at yr eglwys ger Y Waun. Yn ddiethriad bron, byddai tafod y gloch wedi ei gorchuddio, neu ei mwfflo efo darn o ddeunydd er mwyn ychwanegu at y donc alarus.

Clychau Claddu

Yna, roedd y Gloch Law. Mae'r rhain yn hŷn na chlychau eglwys fel arfer. Gwyddom y byddai Gerallt Gymro yn defnyddio un pan ar ei deithiau trwy Gymru yn y ddeuddegfed ganrif, ac ymhen amser, daethant i'w hadnabod fel y 'gloch gladdu', (*corpse bell*). Dywed rhai mai o'r Iwerddon y daethant yn wreiddiol fel clychau gwartheg, ac wedyn eu haddasu ar gyfer yr eglwys trwy eu gorchuddio â haen o efydd. Cefais weld yr un sydd yn Eglwys Sant Crŵst, Llanrwst yn ddiweddar, trwy gar-edigrwydd William Jones, y clochydd presennol. Mae Robert Parry (Robin Ddu Eryri) wedi nodi fod yna 'ddyn â'r gloch gladdu yn mynd trwy Gaernarfon' ar ddiwrnod claddu ei dad yn 1815. Byddai ei hangen fel rhybudd bod angladd ar y ffordd gan y byddai cyflwr y ffyrdd yn wael ac yn gul mewn mannau, yn enwedig os oedd 'elor feirch' yn cael ei ddefnyddio. Yn Eglwys Treffynnon mae cloch 'pen glin', gyda'r pad i'w chynnal yn ei lle. Mae enghraifft o'r *elor feirch* i'w gweld yn Eglwys Llangywer, ac yn Eglwys Llangelynnin ger Llwyngwril. Mae'r ffenestr fach ar y wal orllewinol yno yn dyddio i'r ddeuddegfed ganrif. Yn gorwedd ar y llawr yn union o flaen y

porth gwelir beddfaen Abram Wood gyda'r arysgrifiad 'A.W. 1800', er i gofrestr y plwyf nodi ei fod wedi marw ar Dachwedd 12 1799.

Y gloch yn cyrchu pawb at y tŷ galar

Byddai'r gloch yn cael ei defnyddio o gwmpas y pentref ar ddiwrnod angladd hefyd er mwyn cyrchu pawb at y tŷ galar' mewn pryd - rhaid cofio nad oedd clociau gan fawr neb i ddweud yr amser yn y dyddiau hynny, ac yna fe'i canwyd ar ôl 'codi'r corff' a chychwyn am yr eglwys. Byddai hyn yn arwydd i'r clochydd ddechrau rhoi'r donc alarus ar gloch yr eglwys. Hon oedd y gloch a ddefnyddia'r clochydd i gyhoeddi ffeiriau a newyddion wrth wal yr eglwys, (neu wrth y groes pe byddai un) wedi'r gwasanaeth.

Canu cloch o flaen yr arch

Mae Arthur Rowlands (Ab Uthr) mewn ysgrif, *Gwibdaith ar Ddyddgwyl fy Ngenedigaeth (Cymru, Awst 1993)* yn sôn am gyrraedd Tremeirchion ac yn cyfeirio at yr ysgoldy, gan ddweud 'yma ceddwr hen gloch, yr hon a genid o flaen yr arch, mewn cynhebyggoedd, yn ôl arfer yr hen Gymru 'medde nhw' - nis gallaf fi brofi hynny. Yn Cymru cyf.X mae Peleg I. Jones yn cyfeirio at *Yr Hogyn yn Nhreffynnon* gan sôn am 'Sam y Gloch bach' - 'ei waith oedd cario'r hyfrydlais i'r rhai oedd allan o gyrraedd swm cloch yr eglwys. Yr oedd strap cryf o ledr yn myned o gwmpas ei wddf ac yn cynnal cloch cymaint â'i het. Am ei benglin yr oedd gobennydd o ledr wedi ei strapio am ei goes, yn erbyn hwn y tarawai y gloch bob cam a roddai'

Bachgen wedi ei grogi wrth raff y gloch

Yn *Rhamant Bro* (rhif 23) o dan y pennawd *Briwsion a Darnau Brasach Ffestiniog cyn 1800* cawn hanes un arall o'r bechgyn oedd yn gweinyddu trwy gario'r gloch, ond creadur bach anffodus oedd hwn - 'Digwyddiadau Brawychus :- Awst 4 1770 - Marwolaeth ac angladd Mr Griffith, Tanybwlech ...Dau amgylchiad hynod a ddigwyddodd... Y bachgen a ganai y gloch angladd a ganfuwyd wedi ei grogi wrth raff y Gloch, ac yn rhyfedd iawn, digwyddodd i un o'r ceffylau oedd i'w gludo i'r bedd grogi ei hun yn y stabl. Perthyn y ceffyl i'r Parch David Morris, Cynfal, Rheithor Ffestiniog'. Er nad wyf am ychwanegu dim i'r hanes trist, tybed ai'r strap oedd yn myned o gwmpas ei wddf a'i crogodd?

Byddai'n hanes gan rai dyngu llw, er yn gelwyddog, â'u llaw ar y Beibl nag ar y



Sion Ifan, Clochydd a Phostmon, Penmachno
(Llun a dynnwyd yn 1880 pan oedd tua 75 oed.)

Gloch Gladdu... rhag ofn ynte.

Yr eglwys oedd pia'r gloch wrth gwrs, ond cawn hanes yn **Y Casglwr** (rhif 69) am Hugh Lewis, y Criwr o Lannerch-y-Medd, yn cael ei wrthod rhag defnyddio'r gloch law at ei waith fel criwr. Crydd oedd Hugh Lewis wrth ei alwedigaeth, ac yn ennill rhyw geiniog neu ddwy fel criwr, neu criar, fel y dywedwn ni y ffordd hyn. Priododd, a gadael yr eglwys ac ymuno â Hen Gapel, Llanerch-y-Medd. Troseddodd rywsut yn erbyn y Parchedig John Griffiths, yr offeiriad, ac fe'i rhwystrwyd rhag defnyddio'r gloch. Dialedd yr offeiriad, hwyrach, am iddo droi'i gôt - methu cadw at y llwybr oedd yn arwain heibio'r dafarn oedd yr esgus. Felly, dim cloch, dim criwr oedd hi i'r pentrefwyr i ddod i wybod beth oedd yn mynd ymlaen, a pheth oedd ar ddod. Daeth cyfeillion at ei gilydd a phrynu cloch newydd i Hugh, ond yn eiddo i'r pentref, ac wfft i'r offeiriad a'r eglwys mae'n debyg.

Cloch Eglwys Kerry ar goll

Mae'r gloch law oedd yn Eglwys Kerry yn cael ei chynnwys yn rhestr y cynhwysion yn dyddio 1765, ond gall fod lawer iawn yn hŷn wrth gwrs. Cyfeirir ati fel y 'Little Ting-Tang Bell'. Yn anffodus, nid yw ar gael heddiw, ond mae Esgob Thirlwall o Dŷ Ddewi(1757-1875) yn cyfeirio ati yn un o'i lythyrau...*fel yr oeddwn yn myned trwy fynwent Eglwys Kerry, cefais fy nghyfarch gan ŵr oedd â'i wisg yn dynodi ei fod yn swyddog yn*

(parhâd ar y dudalen nesaf)